

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

3 Chwefror 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW) yn gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mewn perthynas â Chymru, i baratoi mapiau sydd gyda'i gilydd yn dangos yr holl gefn gwlad agored a'r holl dir comin cofrestredig a'u cyhoeddi ar ffurf derfynol.

O dan adran 10(1) a (2) o CRoW, mae gan CNC ddyletswydd i adolygu'r map terfynol ar gyfnodau o ddim mwy na 10 mlynedd.

Mae Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023 yn diwygio'r gofyniad ar gyfer adolygiad degawdol o fapiau ar ffurf derfynol i broses adolygu nad yw'n fwy na phob 15 mlynedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio'r pwerau o dan adran 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Trosglwyddwyd y pwerau o dan y Ddeddf honno, a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae gan CNC ddyletswydd i gynnal adolygiad mapio cyntaf o fynediad agored (cefn gwlad agored a thir comin cofrestredig) nad yw'n fwy na deng mlynedd ar ôl cyhoeddi'r map ar ffurf derfynol. Rhaid i adolygiadau dilynol gael eu cynnal ddim mwy na deng mlynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol. Cwblhaodd CNC yr adolygiad mapio cyntaf yn 2014 sy'n golygu bod disgwyl yr adolygiad nesaf yn 2024.

Mae'r adolygiad degawdol yn ymgymeriad sylweddol gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi'r mapiau mynediad agored ym mhob un o dri cham dilyniannol (drafft, dros dro a therfynol), gyda phob cam yn cynnwys cyfnod ymgynghori sy'n cynnwys caniatáu i randdeiliaid wneud sylwadau ac apeliadau ynghylch yr ardal wedi'i mapio. Mae angen cryn dipyn o amser hefyd ar ddechrau'r broses wrth sefydlu'r adolygiad ac o ran y gwaith ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid. Er mai CNC sy'n mynd i'r afael â'r broses adolygu i raddau helaeth, mae hefyd yn cynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio (i ymdrin ag

apeliadau mapio) a swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gwneud mewnbwn yn ofynnol gan reolwyr tir, buddiannau sectoraidd eraill a'r cyhoedd.

Fel rhan o'i Rhaglen Diwygio Mynediad, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i symud o adolygiad degawdol i broses adolygu parhaus. Mae'r OS hwn yn newid y cyfnod ar gyfer adolygiadau mapio dilynol o 10 mlynedd i 15 mlynedd, sy'n golygu y bydd disgwyl yr adolygiad nesaf yn 2029. Mae hyn yn osgoi bod CNC yn treulio amser ac adnoddau diangen ar broses adolygu sydd o dan ystyriaeth ar gyfer ei diwygio ymhellach ar hyn o bryd, i gyflwyno proses adolygu parhaus.

Nid yw ymestyn yr ysbeidiau rhwng adolygu mapiau yn ffafrio un set benodol o fuddiannau. Mae adolygiad yn ei gwneud yn bosibl ystyried ceisiadau sy'n ceisio lleihau faint o dir sy'n cael ei gategoreiddio fel mynediad agored, yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio am gynnydd. Credir nad yw'r naill fuddiant na'r llall o dan anfantaes yn gyffredinol.

5. Ymgynghori

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno proses adolygu parhaus a allai olygu y bydd angen diwygio Deddf CROW yn sylweddol. Mae proses addas i gymryd lle'r broses bresennol yn cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru a CNC ar hyn o bryd.

Mae CNC wedi cynghori nad oes ganddo'r adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r ddwy dasg hyn ar yr un pryd (sef adolygu'r map mynediad agored cyfredol o dan y terfynau amser statudol cyfredol a symud i broses adolygu parhaus). O ganlyniad, gofynnodd CNC i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan adran 10 (3) o CROW i osod dyddiad newydd o 2029 ar gyfer cwblhau'r adolygiad nesaf o'r mapio mynediad agored.

Gan fod y Rheoliadau yn darparu diwygiad cyfyngedig, sy'n effeithio ar nifer fach o unigolion ac nid yw'n adlewyrchu newid mawr ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Fodd bynnag, ymgysylltwyd â CNC sy'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y diwygiad.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan ei fod yn ddiwygiad technegol sy'n newid y cyfnod adolygu o 10 i 15 mlynedd. Nid oes unrhyw newidiadau i ddiben nac effaith sylweddol y gyfraith. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.